Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Oasis Dental Care Cyfyngedig

19 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:**0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

Digital ISBN 978-1-4734-6509-1
ⓗHawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 3

3. Cyd-destun ........ 5

4. Crynodeb ........ 6

5. Canfyddiadau ........ 7

Profiad y Claf ........ 7

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13

6. Y Camau Nesaf ........ 16

7. Methodoleg ........ 17

8. Atodiad A ........ 19

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Oasis Dental Care Cyfyngedig yn 23 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BT, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 19 Ionawr 2016.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal;
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] [3]a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion;
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Oasis Dental Care Cyfyngedig yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Wrecsam o Gyngor Sir Wrecsam. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae Oasis Dental Care Cyf. yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG

Mae tîm staff y practis yn cynnwys 5 deintydd; 2 dderbynnydd, 1 therapydd deintyddol, 1 hylenydd deintyddol, 1 rheolwr practis, 4 nyrs ddeintyddol, 2 nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## 4. Crynodeb

Ymchwiliodd AGIC i sut roedd Oasis Dental Care Cyfyngedig yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau wrth ddefnyddio'r practis. Dywedodd y cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.

Roedd staff wedi erbyn hyfforddiant ar sut i ymateb pe bai argyfwng claf (llewygu) ac roedd ganddynt fynediad at gyffuriau a chyfarpar brys.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff a gynhyrchir gan y practis.

Dangosai'r staff fod proses foddhaol ar waith ar gyfer dadheintio offer deintyddol.

Yn gyffredinol, canfuom fod cofnodion deintyddol wedi cael eu cadw i safon dda.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn derbyn cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w rôl a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn ymdrin â phryderon (cwynion). Roedd hon yn unol â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal y GIG yng Nghymru.

Roedd amgylchedd y practis deintyddol yn lân a chynnes, ac yn groesawgar. Roedd llawer o seddau ym mhob ardal gydag amrywiaeth dda o gadeiriau er mwyn diwallu anghenion cleifion.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd y cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i reolwr y practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron oedd wedi eu cwblhau cyn diwrnod ein harolygiad.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Dywedodd yr holl gleifion wrthym fod tîm y practis wedi bod yn groesawgar iddynt a'u bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir. Pan ofynnwyd am faint y wybodaeth a ddarperir, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ychwanegol, dywedodd y cleifion wrthym:

> *‘Rwy’n hapus iawn ac yn ddiolchgar am y driniaeth a'r gofal a roddir i mi.'*
>
> *’Rydw i wedi derbyn y gofal gorau dros y blynyddoedd ac yn ddiolchgar am yr holl driniaeth rydw i wedi'i derbyn.*
>
> *‘yn ffodus i gael gwasanaeth mor dda.’*

Roedd y rhif cyswllt ar gyfer gwasanaeth deintyddol (brys) y tu allan i oriau ar gael i gleifion a dywedodd bob un ond dau o'r 20 o gleifion a roddodd sylwadau yn yr holiaduron wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Mae'n bosibl y bydd perchennog y practis a rheolwr y practis yn dymuno ystyried sut i godi rhagor o ymwybyddiaeth ynglŷn â hyn.

Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi profi oedi wrth aros am gael ei weld gan ddeintydd ond mynegodd nad oedd hyn wedi achosi problem iddo. Roedd proses ar waith i roi gwybod i gleifion pe bai apwyntiadau eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu pe bai’r deintydd yn absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad**.**

Roedd y practis wedi asesu safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Cynhelir yr arolwg hwn bob mis. Roedd yr arolwg diwethaf wedi'i gwblhau yn ystod mis Rhagfyr 2015. Gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diwethaf wedi cael eu harchwilio er mwyn

nodi unrhyw themâu a bod y canlyniadau yn 99% neu'n 100%. Nod y rheolwr yw cael 100% ym mhob maes.

Gwelsom fod taflen wybodaeth ar gyfer y practis ar gael ac roedd hon yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a defnyddiol. Roedd taflenni gwybodaeth bellach am ffyrdd iach o fyw a rhoi’r gorau i ysmygu.

Roedd deintyddion a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn darparu triniaeth y GIG yn bennaf ond roedd rhai gwasanaethau deintyddol preifat hefyd yn cael eu cynnig. Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi’u harddangos, ynghyd â gwybodaeth ar gymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gwybodaeth am faint y byddai angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.**

**Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant i ymdrin ag argyfwng cleifion (llewygu) a bod ganddynt fynediad at gyffuriau a chyfarpar brys.**

**Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff a gynhyrchir gan y practis.**

**Dangosai'r staff fod proses briodol ar waith ar gyfer dadheintio'r offer deintyddol.**

**Yn gyffredinol canfuom fod cofnodion deintyddol cleifion wedi'u cadw i safon dda.**

**<u>Cyfarpar/dogfennau radiograffig</u>**

Gwelsom fod trefniadau ar gael ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennaeth a gwybodaeth berthnasol yr oedd eu hangen. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch cyfredol ar gyfer y cyfarpar ar gael. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd rheolau lleol ar gael ym mhob ystafell driniaeth.

Roedd pelydrau-X digidol yn cael eu defnyddio, ac roedd system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delwedd y rhain yn cael ei raddoli a'i gofnodi.

**<u>Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys</u>**

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewygu) yn y practis. Roedd poster hefyd wedi'i arddangos yn ystafell orffwys y staff a oedd yn rhoi manylion swyddogaethau staff pe bai argyfwng yn digwydd. Nodir bod hyn yn arfer da.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn cadarnhau hyn. Cynghorwyd y dylai staff y practis "ystyried cynnal hyfforddiant gloywi rhwng yr hyfforddiant blynyddol o ran cyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd".

Dywedodd staff wrthym fod system ar waith er mwyn nodi a newid cyffuriau â'u dyddiadau wedi dod i ben a gwirio'r  cyfarpar brys yn y practis yn rheolaidd . Mae hyn yn cael ei wirio a'i gofnodi yn wythnosol. Gwnaethom archwilio'r

cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a gwelsom eu bod o fewn eu dyddiad dod i ben.

Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro pobl heb ganiatâd rhag eu defnyddio.

**Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus/domestig.

Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra oedd yn aros i gael ei gasglu.

**Dadheintio offer deintyddol a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)**

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[4]. Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o weithdrefnau rheoli addas, leihau'r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol.

Gwnaethom arsylwi ar aelod o staff yn ystod y broses ddadheintio a chanfod bod hon yn hollol foddhaol.

Roedd gan yr offer awtoclaf (a ddefnyddir er mwyn glanhau a sterileiddio cyfarpar/offer deintyddol) dystysgrifau gwiriad cyfredol a oedd yn cadarnhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd stribedi profi ar gael ac yn dangos bod profion dyddiol wedi cael eu cynnal er mwyn canfod a oedd yr offer awtoclaf wedi cyrraedd "tymheredd" a "phwysedd" sterileiddio addas a bod hyn yn cael ei gynnal am gyfnod o amser penodedig. Roedd cofnodion/llyfrau log ar gael er mwyn dangos p'un a oedd profion rheolaidd, fel y'u nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-

---

[4] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

05, wedi cael eu cynnal ar yr offer awtoclaf a chadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gael eu defnyddio yn y modd bwriadedig.

Gwelsom fod offer wedi’u pecynnu er mwyn lleihau’r risg o heintio wrth iddynt gael eu storio. Roedd tîm y practis wedi cofnodi'r dyddiad pryd cafodd offer eu prosesu (eu glanhau a'u sterileiddio) ar y pecynnau a'r dyddiad dod i ben (sef dylid eu defnyddio erbyn dyddiad penodol). Mae'r practis yn gobeithio gweithredu rhaglen ar gyfer cylchdroi stoc wedi'i sterileiddio o fewn chwe mis. Mae'n bosibl y bydd y practis yn dymuno ystyried ailbrosesu offer wedi'u sterileiddio ar ôl un mis, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

## Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y practis. Canfuom fod y pum ystafell driniaeth yn lân, yn olau ac yn daclus. Roedd yna gyflenwad da o gyfarpar ar gael.

Roedd yr offer deintyddol yn lân ac i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd cyfleusterau ymolchi dwylo ac offer diogelu untro ar gael er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae'r practis yn defnyddio cynhyrchion di-latecs, ac felly’n atal y risg o adwaith alergaidd ar gyfer aelodau staff a chleifion sydd o bosibl ag alergedd i latecs.

Mae un ystafell driniaeth wedi'i phennu ar gyfer yr hylenydd deintyddol ac nid yw'n cael ei defnyddio ar gyfer triniaeth ddeintyddol.

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom adolygu sampl o 15 o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi cael eu cwblhau gan bob un o'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis.

Yn gyffredinol, canfuom fod y cofnodion wedi cael eu cynnal i safon dda a bod nodiadau wedi cael eu cofnodi mewn modd cyson a chynhwysfawr. Canfuom fod cyngor ar risgiau a manteision triniaethau a thriniaethau amgen wedi'u cofnodi; roedd cynlluniau triniaeth wedi cael eu llofnodi gan gleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn dangos bod y cyngor ar hybu iechyd, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu, wedi cael ei ddarparu gan y deintyddion.

Roedd y triniaethau, y costau, y manteision a’r triniaethau amgen wedi'u hegluro a'u cofnodi yn y nodiadau. Mae cydsyniad yn cael ei drafod a'i dderbyn. Roedd gan y deintyddion a'r nyrsys ddealltwriaeth dda o gydsyniad mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac oedolion a gofalwyr cysylltiedig fel y bo'r angen. Roedd un deintydd yn derbyn cydsyniad er nad

oedd yn ei gofnodi'n rheolaidd. O hyn ymlaen bydd y cydsyniad yn cael ei gofnodi.

**Yr Amgylchedd**

Mae Oasis Dental Care Cyfyngedig wedi'i leoli mewn adeilad tŷ pâr sy'n agos i'r ganolfan manwerthu yn Wrecsam. Gwnaeth Oasis Dental Care Cyf feddiannu'r adeilad yn 2006.

Mae gan y practis leoedd parcio dynodedig at ddefnydd cleifion. Roedd ochr flaen yr adeilad wedi'i chynnal a'i chadw'n dda yn ôl pob golwg, ac roedd arwyddion i'r practis.

Roedd mynediad i'r practis ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu'r rhai sydd ag anawsterau symudoledd sylweddol.

Roedd cyfleusterau yn y practis wedi cael eu trefnu dros ddau lawr. Mae'r llawr daear yn cynnwys derbynfa, ystafell aros, un ystafell driniaeth, swyddfa/ystafell OPG, toiled i'r cleifion (a oedd yn hygyrch i bobl anabl), ystafell storio fawr ac ystafell radiograffeg. Ar y llawr cyntaf, mae ystafell aros gyda seddi a pedair ystafell driniaeth arall. Roedd y cyfleusterau staff ar y llawr cyntaf. Nodwyd nad oedd y clo yn nhoiled y cleifion yn caniatáu mynediad i'r toiled pe bai argyfwng yn digwydd. Dywedodd rheolwr y practis y byddai hwn yn cael ei newid.

Roedd toiledau ar gael i'r staff ac i'r cleifion. Roedd y rhai yn cynnwys cyfleusterau ymolchi dwylo a thywelion papur i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion, ynghyd ag oriau agor y practis a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau (argyfwng) hefyd wedi'u harddangos yn glir yn y tu mewn a'r tu allan ger y brif fynedfa.

Roedd cofnodion wedi'u storio'n ddiogel mewn cabinetau sy'n gwrthsefyll tân. Roedd angen cyfrinair ar y staff i gael mynediad at gofnodion electronig. Roedd y prosesau hyn ar waith i amddiffyn gwybodaeth bersonol cleifion a gedwir yn y practis.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw o leoliadau o fewn adeilad y practis. Roedd labeli cynnal a chadw yn nodi bod diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio mewn ymweliad gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth fel bod modd iddynt adael yr adeilad yn ddiogel pe byddai tân, a bod offer diffodd tân ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

### *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd rheolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn derbyn cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w rôl a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis.**

**Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.**

**Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn ymdrin â phryderon (cwynion). Roedd hon yn unol â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal y GIG yng Nghymru. Roedd pob cwyn, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol wedi'i gofnodi. Roedd cwynion anffurfiol wedi'u cofnodi yn nodiadau unigol y cleifion. Cynghorwyd y dylid cadw cofnodion ar wahân ar gyfer cwynion anffurfiol er mwyn canfod a oedd unrhyw themâu wedi'u nodi.**

**<u>Staff</u>**

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd ac eglurodd y byddai hithau'n cyflenwi dyletswyddau aelodau eraill y tîm pan fo angen.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael eu cofrestru â’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom gofnodion yn cadarnhau bod ganddynt yswiriant indemniad dilys ar waith.

Mae'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat. Er mwyn i ddeintyddion ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru mae'n rhaid iddynt gofrestru ag AGIC. Gwelsom fod gan ddeintyddion dystysgrifau cyfredol AGIC a oedd yn cadarnhau eu cofrestriad. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn amlwg yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd cofnodion hefyd ar gael oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hynny yn golygu bod staff wedi cymryd camau priodol er mwyn sicrhau eu diogelwch hwythau a'u cleifion yn erbyn firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Gwnaethom siarad ag aelodau o staff a oedd yn gweithio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Esboniodd y staff eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a’u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom sampl o

dystysgrifau hyfforddiant staff a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roeddent yn trafod pynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael codi materion ynglŷn â'u gwaith a'u trafod yn y cyfarfodydd hyn. Gwelsom fod cofnodion wedi cael eu cadw o gyfarfodydd y practis.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y practis bolisïau ysgrifenedig ar waith ynghylch amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd manylion cyswllt y timau diogelu lleol ar gael fel bod modd i staff gael y wybodaeth am bwy y dylid cysylltu ag ef ar gyfer cyngor ar faterion diogelu. Roedd aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

## Cwynion

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth breifat, a gofal a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith er mwyn i gleifion allu mynegi pryderon (cwynion). Roedd y weithdrefn yn bodloni gofynion y rheoliadau deintyddiaeth breifat ac yn cydymffurfio â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ofal y GIG yng Nghymru.

Dywedodd staff wrthym y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gydag uwch staff y practis.

Canfuom dystiolaeth fod pryderon (cwynion) ffurfiol/ysgrifenedig yn cael eu cofnodi a'u logio mewn ffeil cwynion. Roedd traciwr cwynion hefyd ar gael ar y rhyngrwyd. Dywedwyd wrthym fod cwynion anffurfiol/ar lafar yn cael eu nodi a'u logio yn nodiadau unigol y cleifion a bod cwynion yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y practis er mwyn rhannu profiadau dysgu, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth.

Pan wnaethom ofyn i gleifion am y weithdrefn i'w dilyn, dywedodd mwyafrif y cleifion (16) a ddychwelodd holiaduron wrthym eu bod yn ymwybodol o sut i wneud cwyn a dywedodd pum claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) ar gael yn y practis.

**Dogfennau Ysgrifenedig**

Roedd gan y practis ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol â'r nod o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Polisi diogelu data
- Asesiadau rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH)
- Diogelu Plant
- Diogelu Oedolion
- Rheoli Heintiau
- Iechyd a Diogelwch
- Preifatrwydd ac urddas
- Polisi cyfle cyfartal

## 6. Y Camau Nesaf

Ni arweiniodd y canfyddiadau o'r arolygiad hwn at yr angen i'r practis gwblhau cynllun gwella.

## 7. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd.  Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau rydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] [6]a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion;
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 8. Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** **Oasis Dentl Care Cyfyngedig.**

**Dyddiad yr Arolygiad: 9 Ionawr 2016**

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |
| | | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..............................................................................................

**Teitl:** ..............................................................................................

**Dyddiad:** ..............................................................................................